

## Uwchsain rhydweliâu yn eich coes.

### Beth yw hwn?

Gall sgan uwchsain o'ch rhydweliâu yn eich coes hefyd gael ei alw'n dwplecs rhydweliol neu'n Doppler rhydweliol. Mae'r prawf hwn yn defnyddio uwchsain i gynhyrchu delweddau o'ch rhydweliâu. Mae'r rhydweliâu yn cludo gwaed i ffwrdd o'r galon i'ch breichiau a'ch coesau. Mae'r prawf hwn yn ffordd ddiogel ac effeithiol o asesu llif y gwaed a gall roi gwybod i ni os oes unrhyw rwystr yn y rhydweliâu neu os ydynt wedi culhau. Bydd hyn yn galluogi'r ymgynghorydd i gynllunio'ch triniaeth yn briodol. Dylai'r prawf fod yn ddi-boen ac nid yw'n defnyddio unrhyw ymbelydredd na nodwyddau. Nid oes unrhyw risgiau o gael y sgan hwn.

### Pam ydw i'n cael y prawf hwn?

Mae eich meddyg wedi gofyn am y sgan hwn oherwydd ei fod yn amau y gallai fod rhwystr yn eich rhydweliâu neu gallent fod wedi culhau sy'n achosi'r boen pan fyddwch yn cerdded neu a allai fod yn cyfrannu at eich clwyfau ac ati.

### Sut mae uwchsain rhydweliol yn cael ei berfformio?

Nid oes angen paratoi ar gyfer y sgan. Bydd gwyddonydd clinigol neu wyddonydd dan hyfforddiant (a all fod yn wryw neu'n fenyw) yn cynnal dehongliad o'ch sgan uwchsain. Bydd gofyn i chi dynnu'ch esgidiau a throwsus/sgert a bydd hancesi papur yn cael eu rhoi yn eu lle i amddiffyn eich dillad rhag y jel. Bydd y sgan yn cael ei berfformio gyda chi yn gorwedd i lawr ac yna yn eistedd i fyny i gael y golygfeydd gorau o'r rhydweliâu yn groth y coes. Bydd y sgan uwchsain yn dechrau



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro  
Cardiff and Vale  
University Health Board

yn y werddyr ac yn gweithio i lawr tuag at y ffêr. Os bydd angen, bydd y gwyddonydd yn sganio'r pibellau gwaed yn eich bol. Bydd y prawf yn cymryd tua 30-60 munud.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y gwyddonydd clinigol yn esbonio'r canlyniadau ac yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer y meddyg a ofynnodd am y sgan. Byddwch yn gallu trafod canlyniad y sgan yn llawn gyda'r tîm atgyfeirio yn eich apwyntiad claf allanol nesaf. Os yw'r sgan hwn yn cael ei berfformio mewn clinig fasgwlaidd, byddwch yn gweld y meddyg ar ôl y sgan i drafod y canlyniad.